# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**2016 dccc 2**

## RHAN 6

GWEITHWYR GOFAL CYMDEITHASOL: ADDASRWYDD I YMARFER

## PENNOD 3

GWAREDU ACHOSION ADDASRWYDD I YMARFER

### 140 Gorchmynion effaith ar unwaith ar gyfer cofrestru amodol neu atal dros dro

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo panel addasrwydd i ymarfer wedi gwneud gorchymyn cofrestru amodol, gorchymyn atal dros dro neu orchymyn dileu mewn cysylltiad â pherson cofrestredig o dan adran 138(7), (8) neu (9) ("y penderfyniad").

(2) Caiff y panel addasrwydd i ymarfer—

(a) yn achos gorchymyn cofrestru amodol, gwneud gorchymyn y dylai cofrestriad y person cofrestredig yn y gofrestr fod yn ddarostyngedig i'r amodau gydag effaith ar unwaith, neu

(b) yn achos gorchymyn atal dros dro neu orchymyn dileu, gwneud gorchymyn y dylai cofrestriad y person cofrestredig yn y gofrestr gael ei atal dros dro gydag effaith ar unwaith.

(3) Ni chaiff y panel wneud gorchymyn o dan is-adran (2) ("gorchymyn effaith ar unwaith") ond os yw wedi ei fodloni bod y gorchymyn—

(a) yn angenrheidiol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd,

(b) fel arall er budd y cyhoedd, neu

(c) er budd y person cofrestredig.

(4) Rhaid i GCC roi hysbysiad i'r person cofrestredig bod gorchymyn effaith ar unwaith wedi ei wneud.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(5) Mae gorchymyn effaith ar unwaith yn cael effaith o'r dyddiad yr hysbyswyd y person cofrestredig amdano—

(a) tan y dyddiad y mae'r penderfyniad yn cymryd effaith yn unol ag adran 141(5), neu

(b) hyd nes bod apêl yn erbyn y penderfyniad yn cael ei chadarnhau.